

Adroddiad ar

Ysgol Porth y Felin

**Ffordd Llanrwst
Conwy
LL32 8FZ**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Porth y Felin

| | |
|---|--------------------------------|
| Enw'r darparwr | Ysgol Porth y Felin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 319 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 255 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 32 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 16.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 9.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 9.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

Adroddiad ar Ysgol Porth y Felin
Chwefror 2026

| | |
|---|------------|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/10/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/02/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

Crynodeb

Mae Ysgol Porth y Felin yn ysgol ofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a datblygiad pob disgybl. Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a chydlynus sy'n hyrwyddo'r egwyddor fod pob plentyn yn "credu, parchu a llwyddo". Caiff y weledigaeth hon ei chyfleu'n effeithiol i ddisgyblion, staff, rhieni a'r gymuned, gan gyfrannu at ymddygiad cadarnhaol ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae staff, rhieni ac asiantaethau allanol yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu cefnogaeth ychwanegol ac amserol ar gyfer y disgyblion hyn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu dosbarth 'Yr Elen', yn gwneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chyfoethog, ac yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u treftadaeth a'u hunaniaeth yn llwyddiannus. Darperir cyfleoedd buddiol iddynt drafod materion moesol ac ysbrydol, ynghyd â phrofiadau sy'n meithrin parch at amrywiaeth. Mae athrawon yn cynllunio tasgau diddorol sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a chreadigol disgyblion yn llwyddiannus. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae disgwyliadau uchel a gweithgareddau sy'n herio disgyblion yn briodol yn eu cefnogi i gyflawni hyd orau eu gallu. Fodd bynnag, nid yw'r arferion cryfaf hyn wedi'u gwreiddio'n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae medrau llythrennedd Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryf, ac maent yn cymhwyso eu medrau mathemategol a digidol yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw medrau llafar Cymraeg disgyblion yn datblygu'n ddigon effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau hunanwerthuso addas i nodi cryfderau a blaenoriaethau gwella. Er hyn, nid yw'r camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella bob amser yn ddigon clir. Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac yn darparu her briodol.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

- A1 Cryfhau prosesau gwella wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol
- A2 Cysoni'r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol a sicrhau bod gweithgareddau'n herio disgyblion yn briodol
- A3 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wella eu medrau llafaredd Cymraeg

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif werthusiad

Mae Ysgol Porth y Felin yn gymuned gynhwysol, sy'n rhoi pwyslais cryf ar les disgyblion. Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a phwrpasol gyda'r dyhead fod pob disgybl yn 'credu, parchu a llwyddo'. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda staff, rhieni a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymddygiad cadarnhaol ymhlith y disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n ddiwyd â disgyblion, rhieni a phartneriaethau allanol i sicrhau bod cefnogaeth yn amserol ac yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu dosbarth 'yr Elen', yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn, dros amser.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n hybu dealltwriaeth disgyblion o'u threftadaeth a'u hunaniaeth yn effeithiol, er enghraifft trwy ymweld â chastell Conwy ac astudio ei nodweddion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd sensitif i ddisgyblion gyd-addoli a thrafod materion pwysig, fel perthnasoedd ac amrywiaeth. Mae ymweliadau cyson, fel i'r eglwys leol, yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ymwybyddiaeth ysbrydol a materion moesol. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau yn llwyddiannus. Yn ychwanegol, mae cwricwlwm yr ysgol yn datblygu medrau creadigol ac artistig disgyblion yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon a chynorthwyr yn meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol â disgyblion. Mae'r athrawon yn rhannu amcanion y dysgu ac yn holi disgyblion yn bwrpasol. Mae hyn yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn fuddiol ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol agweddau ymhellach. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol ac yn mwynhau dysgu. Mae athrawon yn cynllunio tasgau dysgu difyr sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion, gan ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a chreadigol yn llwyddiannus. Yn yr arferion gorau, mae cyflymder bwriadus i'r sesiynau dysgu ac mae disgwyliadau uchel gan staff yn sicrhau her addas i'r gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn. Fodd bynnag, nid oes digon o gysondeb yn yr arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel a'r rhai ag ADY, yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn siarad yn fyrlymus wrth iddynt esbonio pa liw sy'n cael ei greu wrth gymysgu paent. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad yn hyderus, er

enghraifft wrth drafod sut maen nhw wedi creu darn o waith gan ddefnyddio ystod o luniau a deunyddiau parod.

Mae medrau ysgrifennu Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ysgrifennu brawddegau syml gyda mynegiant clir ac ystyrllon gan ddefnyddio atalnodi'n ddeallus, er enghraifft wrth ysgrifennu stori ddychmygol y 'tair cwningen fach'. Erbyn brig yr ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion afael dda ar bwrpas, cynulleidfa a ffurf ac maent yn cymhwyso'r ddealltwriaeth hon yn hyderus at wahanol ddibenion a gwahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth ysgrifennu beirniadaeth o waith celf enwog.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall cyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg ac yn ymateb yn briodol, ar adegau. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw medrau llafar Cymraeg disgyblion yn datblygu'n ddigon effeithiol.

Mae medrau mathemateg a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. O oedran ifanc, maent yn adnabod rhifau yn fedrus ac yn defnyddio eu gwybodaeth am briodweddau siapiau rheolaidd yn hyderus. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau rhif yn fwriadus wrth ddatrys problemau 'bywyd go iawn' gyda hyder cynyddol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio rhaglenni celf yn hyderus i greu llun o'r tŷ lleiaf yng Nghonwy. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu ar eu medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu gwefannau pwrpasol i gyflwyno rhinweddau saith rhyfeddod y byd.

Drwy'r amryw bwyllgorau, mae'r disgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus wrth gyfrannu eu syniadau at sut gellir gwella'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Mae'r Criw Cymraeg yn cynnal disgo 'tawel' i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ganeuon Cymraeg a chryfhau'r ymdeimlad o Gymreictod yn yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau hunanwerthuso addas ar gyfer monitro'r ddarpariaeth a medrau'r disgyblion. Maent yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth er mwyn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Yn ogystal, mae arweinwyr canol yn cydweithio'n effeithiol wrth graffu ar lyfrau ei gilydd ac arsylwi ar sesiynau dysgu. Mae'r trefniant hwn yn helpu sicrhau bod gan staff ymwybyddiaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Er hyn, nid yw'r prosesau gwelliant bob amser yn nodi'r camau gweithredu yn ddigon clir wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i gefnogi presenoldeb a phrydlondeb disgyblion ac mae presenoldeb disgyblion wedi gwella dros amser. Er hyn, mae cyfraddau absenoldeb parhaus ychydig o ddisgyblion yn parhau i fod yn rhy uchel.

Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol yn cefnogi datblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau staff yn effeithiol. Mae hyfforddiant penodol i athrawon ar

adborth, er enghraifft, wedi datblygu eu dealltwriaeth yn effeithiol o sut i gefnogi disgyblion i adnabod yr hyn maent wedi ei wneud yn dda a'r hyn mae angen iddynt ei wella yn eu gwaith. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn ac amserol yn eu medrau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn adnabod yr ysgol a'r gymuned mae'n ei gwasanaethu yn dda. Maent yn cynnig cymorth a her briodol i arweinwyr. Trwy ystod briodol o weithgareddau monitro fel craffu ar waith disgyblion a thrafod gydag arweinwyr, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella, ar y cyfan. Maent yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ofalus.

Mae 'ffrindiau'r ysgol' yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu'n fwriadus at fywyd a gwaith yr ysgol. Trwy gynnal digwyddiadau fel bingo Pasg a ffeiriau haf, maent yn defnyddio'r elw i wella cyfleusterau'r ysgol, fel archebu fframiau dringo i'r buarth. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi'r ysgol i wella medrau corfforol y disgyblion yn effeithiol.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. 'y rhan fwyaf o ddisgyblion...' neu 'ychydig iawn o ddisgyblion...'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|----------------|---------------------------------|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2026